Llythyr Eglurhaol

APP 02

Development of National Significance

Alaw Môn Solar Farm

Land west of the B5112, 415m south of Llyn Alaw, 500m east of Llantrisant and 1.5km west of Llannerch-y-Medd, Anglesey

Ebrill 2024

GRO/P21-0032

24 Ebrill 2024

Chris Sweet
Rheolwr Cydsynio Seilwaith
Tîm Gwaith Achos Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS)
Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW)
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Annwyl Mr Sweet

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
RHEOLIADAU DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL (CYMRU) 2016
CYFEIRNOD Y CAIS: DNS/3274702
CAIS GAN: WYLFA GREEN LTD
SAFLE: I'R GORLLEWIN O'R B5112, 325M I'R DE O LYN ALAW, 500M I'R DWYRAIN O LANTRISANT AC 1.5KM I'R GORLLEWIN O LANNERCH-Y-MEDD

Ar ran Wylfa Green Ltd, cyflwynaf drwy hyn gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) ar gyfer adeiladu, gweithredu, rheoli a datgomisiynu dilynol cyfleuster storio batri a fferm solar wedi'u cydleoli ar dir tua 1.5km i'r gorllewin o'r B5112, 415m i'r de o Lyn Alaw, 500m i'r dwyrain o bentref bach Llantrisant, ac 1.5km i'r gorllewin o Lannerch-y-Medd.

Dogfennau'r Cais Cynllunio

Mae'r cais wedi cael ei gyflwyno'n electronig i PEDW drwy ei lwyfan gyriant a rennir. Mae copïau papur o'r cais hefyd wedi cael eu hanfon at PEDW a Chyngor Sir Ynys Môn fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Mae'r cais a gyflwynir yn cynnwys: -

- FFURFLEN GAIS[1]
- LLYTHYR EGLURHAOL (y llythyr hwn)
- MYNEGAI'R CAIS

[1] GAN NAD OES DIGON O LE AR Y FFURFLEN GAIS, DARPERIR RHESTR LAWN O'R ENWAU A'R CYFEIRIADAU Y CYFLWYNWYD YR HYSBYSIAD IDDYNT YN ATODIAD 1 – NI DDYLAI'R RHESTR HON FOD AR GAEL I'R CYHOEDD.

LLUNIADAU'R CAIS: -

Rhif y Lluniad ***Enw'r Lluniad***

- ENSO-11-01 REV – TAFLEN CYNLLUN LLEOLIAD SAFLE 1 O 4
- ENSO-11-01 REV – TAFLEN CYNLLUN LLEOLIAD SAFLE 2 O 4
- ENSO-11-01 REV – TAFLEN CYNLLUN LLEOLIAD SAFLE 3 O 4
- ENSO-11-01 REV – TAFLEN CYNLLUN LLEOLIAD SAFLE 4 O 4
- WAM-01-P02REV REV - CYNLLUN SAFLE ARFAETHEDIG
- WAM-01-P19 REV - TREFNIADAU CEBL CYSYLLTIAD 132KV RHWNG IS-ORSAF Y GRID CENEDLAETHOL A'R IS-ORSAF SOLAR
- WAM-01-P20 REV - GWRTHDRÖYDD / TRAWSNEWIDYDD SYSTEMAU STORIO YNNI BATRI (BESS)
- ICS-20-4089-001 REV B TAFLEN IS-ORSAF 132KV ALAW MÔN 1 O 2
- ICS-20-4089-001 REV B TAFLEN IS-ORSAF 132KV ALAW MÔN 2 O 2
- PL02 REV C CYNLLUN ASESIAD TORRI A LLENWI RHAGARWEINIOL
- PL03 REV C CROESTORIADAU TORRI A LLENWI RHAGARWEINIOL
- PL04 REV - RHANNAU HYDREDOL Y LLWYBR MYNEDIAD ARFAETHEDIG
- AM3.0 REV 01 GWEDDLUNIAU FFOTOFOLTÄIG (PV)
- AM4.0 REV 01 GORSAFOEDD GWRTHDRÖYDD / TRAWSNEWIDYDD
- AM5.0 REV 01 MANYLION Y FFORDD FYNEDIAD FEWNOL
- AM6.0 REV 01 GWEDDLUNIAU'R FFENS A'R GLWYD
- AM7.0 REV 01 MANYLION YR ORSAF DYWYDD
- AM9.0 REV 01 GWEDDLUNIAU'R YSTAFELL REOLI
- AM11.0 REV 01 GWEDDLUNIAU TELEDU CYLCH CYFYNG (CCTV)
- AM12.0 REV 01 GWEDDLUNIAU'R CYNHWYSYDD BATRI 40 TROEDFEDD
- AM13.0 REV 01 CYNHWYSYDD STORIO 40 TROEDFEDD
- AM14.0 REV 01 GWEDDLUNIAU'R BATRI, Y FFENS A'R GLWYD
- AM15.0 REV 01 GWEDDLUNIAU'R FFENS A'R GLWYD
- AM16.0 REV 01 TRAWSTORIAD YR ARWYNEB
- LN-LP-14 REV D CYNLLUN STRATEGAETH TIRWEDD: CYFFREDINOL

DOGFENNAU'R CAIS: -

- CRYNODEB ANNHECHNEGOL O'R DATGANIAD AMGYLCHEDDOL (SAESNEG)
- CRYNODEB ANNHECHNEGOL O'R DATGANIAD AMGYLCHEDDOL (CYMRAEG)
- DATGANIAD AMGYLCHEDDOL
- ATODIADAU TECHNEGOL Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL
- DATGANIAD DYLUNIO A MYNEDIAD
- ADRODDIAD YMGYNGHORI
- DATGANIAD CYNLLUNIO
- DATGANIAD IAITH GYMRAEG
- ADRODDIAD BUDDION CYDWEITHREDOL
- DATGANIAD CHWILIAD SAFLE
- ASESIAD O'R EFFAITH AR DIR AMAETHYDDOL
- DATGANIAD BUDDION ECONOMAIDD
- ASESIAD O'R EFFAITH AR GOEDYDDIAETH
- ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD: ADRODDIAD DIM EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL
- DATGANIAD SEILWAITH GWYRDD

- CYNLLUN Y GADWYN GYFLENWI A SGILIAU CYFLOGAETH
- CYNLLUN RHEOLI TIRWEDD AC AMGYLCHEDD AMLINELLOL
- ASESIAD ENILLION BIOAMRYWIAETH
- GWEITHRED Y RHODD

Mae dogfennau rheoleiddio eraill a gyflwynwyd gyda Chyflwyniad y Cais yn cynnwys: -

- COPI O'R HYSBYSIAD DERBYN A GYFLWYNWYD GAN PEDW
- COPI O GYFARWYDDYD CWMPASU'R ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL (EIA)
- COPI O'R HYSBYSIAD

Ystyrir bod y cais a gyflwynwyd wedi dangos na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd ac felly byddai'n cyd-fynd â Pholisïau 17 a 18 Cymru'r Dyfodol. O ystyried dyddiad cyhoeddi Cymru'r Dyfodol o'i gymharu â Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, honnir y byddai'r cynnig yn cyd-fynd â'r cynllun datblygu yn ei gyfanrwydd. Mae manteision y datblygiad yn niferus ac yn cynnwys: -

(i) byddai'n gwneud cyfraniad gwerthfawr o ran darparu ynni adnewyddadwy datganoledig;

(ii) byddai'n cyfrannu at hyfywedd y pedair menter ffermio drwy arallgyfeirio incwm;

(iii) o ran ecoleg, mae wedi dilyn y dull gweithredu fesul cam a byddai'n sicrhau gwelliannau sylweddol o ran bioamrywiaeth, a gellir sicrhau'r rhain drwy amod cynllunio;

(iv) byddai manteision economaidd yn cael eu sicrhau o ran adeiladu ac, i raddau llai, rheolaeth weithredol cynnig y cais. Bydd cynnig y cais yn darparu cyfleoedd cyflogaeth a busnes ar gyfer cyflenwyr / gosodwyr cydrannau a'r rheini sy'n ymwneud â chysylltu â'r grid, trafnidiaeth a logisteg. Lle mae'n bosibl, bydd busnesau lleol yn cael eu contractio ar gyfer rhannau perthnasol o gwmpas y gwaith dros y cyfnod adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw. Bydd effeithiau ychwanegol yn ystod y cyfnod adeiladu, wrth i unrhyw weithwyr adeiladu sy'n dod i mewn (peirianwyr, rheolwyr prosiect ac ati) wario eu cyflogau ar lefel leol (bwytai, siopau manwerthu ac ati) a defnyddio llety lleol.

Mae'n amlwg bod darparu ynni adnewyddadwy yn un o brif flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf. Mae Cymru'r Dyfodol yn gosod cyfeiriad clir o ran sut y dylai Cymru fod yn buddsoddi mewn seilwaith a datblygu er budd Cymru a'i phobl, ac mae darpariaeth ynni adnewyddadwy wedi'i wreiddio'n gadarn yn y cyfeiriad hwn yn y dyfodol. Mae Cymru'r Dyfodol yn ymdrin yn gywir â'r rheoliadau a nodwyd yn y Senedd ar 9 Chwefror 2021, sy'n ymrwymo Cymru'n ffurfiol, am y tro cyntaf, i dargedau sy'n rhwymo'n gyfreithiol i gyflawni'r nod o allyriadau sero net. Mae paragraff 5.9.15 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn rhoi cydnabyddiaeth bwysig (ymysg pethau eraill) i'r canlynol: *"Nid yw'r angen lleol am gynllun penodol yn ystyriaeth berthnasol, gan fod cynhyrchu ynni o arwyddocâd cenedlaethol ac mae angen cydnabyddedig i wneud y gorau o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel"*. Mae Cymru'r Dyfodol a PCC yn nodi faint o bwys y dylid ei roi ar ddatblygu ynni adnewyddadwy. Dylid hefyd rhoi pwysau sylweddol ychwanegol ar y system storio ynni batri a gynigir fel rhan o'r datblygiad.

Gan droi at y dull rhanbarthol, mae Cymru'r Dyfodol yn lleoli safle'r cais yn nalgylch rhanbarthol gogledd Cymru. Mae'r ddogfen a gyhoeddwyd, ar dudalen 118, yn nodi sut mae darparu ynni adnewyddadwy yn hanfodol i ogledd Cymru chwarae ei rhan yn y gwaith o ddatgarboneiddio. Mae'n nodi (ymysg pethau eraill) (pwyslais ein hun yw'r geiriau sydd wedi'u tanlinellu ac sydd mewn print trwm) *"Mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn chwarae ei ran yn y gwaith o ddatgarboneiddio cymdeithas a'i fod yn cefnogi'r gwaith o wireddu ynni adnewyddadwy. Mae polisïau 17 ac 18 yn nodi dull Cymru'r Dyfodol o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy ledled Cymru. Mae potensial cryf ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt, morol a solar, a dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ddarparu fframwaith ar gyfer cynhyrchiant a seilwaith cysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld cynhyrchu, storio a rheoli ynni yn chwarae rhan yn y gwaith o gefnogi'r economi ranbarthol yn y gogledd. Mae perchnogaeth a dosbarthiad lleol yn bwysig er mwyn sicrhau bod cymunedau sy'n agos at ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yn elwa ohonynt a bod ein system ynni yn y dyfodol yn gwasanaethu Cymru'n well"*.

Mae mwy ar waith yma. Nododd Adroddiad Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2022 mai dim ond tua 27% o'r holl ynni sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru oedd yn dod o ffynonellau adnewyddadwy yn 2022. Mae hyn i lawr o 33% yn 2020 oherwydd cynnydd sylweddol mewn cynhyrchiant o ffynonellau anadnewyddadwy. Mae'n amlwg felly bod Cymru'n mynd i'r cyfeiriad anghywir o ran ei chymysgedd ynni a'i dibyniaeth ar ffynonellau anadnewyddadwy. Yn unol â hynny, mae angen newid sylweddol i gyflawni'r 100% amcanol o ynni adnewyddadwy erbyn 2035. Bydd y cais hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at y targed hwn.

Hyderaf fod y cais yn bodloni safonau dilysu'r DNS, ac edrychaf ymlaen at gael cadarnhad o fewn yr amserlen 42 diwrnod statudol ar ôl i chi dderbyn y cyflwyniad hwn.

Yn gywir

Gareth Roberts
Uwch Gyfarwyddwr
Gareth.roberts@pegasusgroup.co.uk
07880009302

Amg.

ATODIAD 1

CERTIFICATE OF OWNERSHIP & APPLICANT SITE OWNERSHIP DETAILS - CONTINUATION SHEET TO APPLICATION FORM

CERTIFICATE OF OWNERSHIP – CERTIFICATE B Notice Under Article 16 (1)(a)

I certify that the applicant (or the agent) has given the requisite notice to everyone else who, on the day 21 days before the date of this application, is known to the applicant as an owner (owner is a person with a freehold interest or leasehold interest with at least 7 years left to run) or tenant (see the guidance) of any part of the land to which the application relates, as listed below:

NAME	Address at which notice was served	Date Notice Served
MARGARET THOMAS	BRON LLWYN, CARMEL LLANNERCH-Y-MEDD ANGLESEY LL71 7BT	24 APRIL 2024
DAVID THOMAS	CHWAEN BACH CARMEL LLANNERCH-Y-MEDD ANGLESEY LL71 7BT	24 APRIL 2024
MARGARET THOMAS	BRON LLWYN CARMEL LLANNERCH-Y-MEDD ANGLESEY LL71 7BT	24 APRIL 2024
DAVID THOMAS	CHWAEN BACH CARMEL LLANNERCH-Y-MEDD ANGLESEY LL71 7BT	24 APRIL 2024
JOHN THOMAS AND MARGARET THOMAS	BRON LLWYN CARMEL LLANNERCH-Y-MEDD ANGLESEY LL71 7BT	24 APRIL 2024
NIA THOMAS	CHWAEN BACH CARMEL LLANNERCH-Y-MEDD ANGLESEY LL71 7BT	24 APRIL 2024
HONOR AND BRIAN THOMAS	CHWAEN GOCH LLANNERCH-Y-MEDD ANGLESEY LL71 7BP	24 APRIL 2024
SNOWDON FARMS LIMITED	DINAM LLANGAFFO	24 APRIL 2024

	GAERWEN ANGLESEY LL60 6LR	
EUROS WILLIAMS	CILCENNUS FARM LLANRWST CONWY LL26 0RB	24 APRIL 2024
MEDWEN ROBERTS	TAN RALLT CARMEL LLANNERCH-Y-MEDD ANGLESEY LL71 7BU	24 APRIL 2024
MEDWEN ROBERTS	YR ARWYDD CARMEL LLANNERCH-Y-MEDD ANGLESEY LL71 7BY	24 APRIL 2024
OWEN ARMON ROBERTS	YR ARWYDD CARMEL LLANNERCH-Y-MEDD ANGLESEY LL71 7BY	24 APRIL 2024
HORIZON NUCLEAR POWER WYLFA LIMITED	SUNRISE HOUSE UNIT 1420 CHARLTON COURT GLOUCESTER BUSINESS PARK BROCKWORTH, GLOUCESTER GL3 4AE	24 APRIL 2024
NUCLEAR DECOMMISSIONING AUTHORITY	HERDUS HOUSE WESTLAKES SCIENCE & TECHNOLOGY PARK MOOR ROW CA24 3HU	24 APRIL 2024
MAGNOX LIMITED	BERKELEY CENTRE BERKELEY GL13 9PB	24 APRIL 2024
NATIONAL GRID	1-3 STRAND LONDON WC2N 5EH	24 APRIL 2024
WALES AND WEST UTILITIES LTD	SPOONER CLOSE CELTIC SPRINGS COEDKERNEW NEWPORT NP10 8FZ	24 APRIL 2024
SP POWER SYSTEMS LTD	1 ATLANTIC QUAY GLASGOW G2 8SP	24 APRIL 2024